# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 27.04.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Robert Anderson, Louise Hughes, Evie Morgan Jones, J R Jones, Eryl Jones-Williams, Peter Read, Gareth Roberts a Gwilym Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Emyr Searell Jones (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Bleddyn Davies (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd ac Iechyd & Diogelwch) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Ieuan Roberts

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol

**2 MATERION BRYS**

Nid oedd y materion isod wedi eu cynnwys ar raglen y pwyllgor, ond cytunodd y cadeirydd eu cynnwys o dan Adran 100B (4)(b), Deddf Llywodraeth Leol 1972, oherwydd ei fod o'r farn bod angen datrysiad buan i'r materion dan sylw.

**(a) ACHOS YN Y BERMO**

Adroddodd aelod iddo gael ymweliad gan yr Heddlu yn ddiweddar, oherwydd bod siop "Kebab" yn nhref y Bermo ar agor tan 3.00 y bore, a bod llawer o drafferthion yn sgil hynny. Mynegwyd y farn bod camgymeriad wedi ei wneud wrth ddarparu'r drwydded.

Roedd y mater gerbron Cyngor Tref y Bermo y noson ddilynol, ac roedd yr aelod yn awyddus i gael gwybodaeth ymlaen llaw ynglŷn er mwyn adrodd ar y mater.

Eglurodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd mewn sefyllfa i ymateb i'r achos yn y cyfarfod, ond addawodd ymchwilio er ceisio datrysiad i'r sefyllfa, a chysylltu gyda'r aelod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Rheolwr Trwyddedu ymchwilio i'r mater, a chysylltu gyda'r aelod cyn cyfarfod nesaf Cyngor Tref y Bermo, er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa i adrodd ar y mater.**

**(b) PARCIO TACSIS AR Y MAES, CAERNARFON**

Mynegodd aelod anfodlonrwydd mawr oherwydd bod tacsis yn parcio ym mhobman ar y Maes yng Nghaernarfon.

Adroddodd ei fod ar ddeall bod cynllun wedi'i gytuno erbyn hyn, sy'n dynodi mannau parcio ar gyfer tacsis, ac ni allai ddirnad pam nad oedd y tacsis yn parcio yn y mannau dynodedig.

Nodwyd ei bod yn  bwysig sicrhau bod aelodau lleol Caernarfon yn ymwybodol o'r trefniadau.

Adroddodd yr aelod ymhellach ei bod yn ymddangos bod gwahanol adrannau'r Cyngor yn gyfrifol am agweddau gwahanol o'r gwaith, a bod angen i un person gydgordio'r holl waith. Nodwyd hefyd bod angen sicrhau bod aelodau lleol Caernarfon yn ymwybodol o'r trefniadau.

Eglurodd y Rheolwr Trwyddedu nad oedd y mater yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Trwyddedu Canolog, fodd bynnag, roedd ganddo gyfarfod gyda'r diwydiant tacsis y bore hwnnw ac addawodd gyfleu pryderon y pwyllgor yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD mynegi pryder wrth y Pennaeth Rheoleiddio bod tacsis yn parcio ym mhobman ar y Maes, yng Nghaernarfon, a gofyn iddo fynd ynglŷn â datrys y sefyllfa yn ddiymdroi.**

**4 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2009 fel rhai cywir.

**Yn codi**

**Eitem 3 - Cofnodion Is-bwyllgorau Trwyddedu Canolog**

Diolchodd y Cynghorydd Evie Morgan Jones i'r swyddogion am y modd effeithiol yr ymdriniwyd â mater o orfodaeth yn codi o achos yn y gorffennol yng Ngwestyu'r Lion, Y Bermo.

**3. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG:**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, cofnodion y cyfarfodydd canlynol:-

30 Ionawr 2009 13 Mawrth 2009 16 Mawrth 2009

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r wybodaeth.**

**4. CYNLLUN YMYRRAETH 2009/10 Y GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH**

(a) Adroddodd yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd ei fod yn ofyn statudol i'r Cyngor ddarparu Cynllun Ymyrraeth y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch a Chynllun Cyflwyno Gwasanaeth Diogelwch Bwyd.  Eglurodd,  bod y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cydweithio gydag asiantaethau

canolog sef Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGIG) ac Asiantaeth Safonau Bwyd (AGB).

(b) Cyflwynwyd, er cymeradwyaeth y pwyllgor, Cynllun Ymyrraeth y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2009/10.

(c) Adroddwyd bod adain o fewn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn delio â gorfodi iechyd a diogelwch mewn mannau gwaith tu allan i'r Cyngor, megis siopau, meysydd carafannau, gwestai ac ati.

Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod trefniadau digonol yn eu lle er mwyn gorfodi'r darpariaethau statudol perthnasol ac i roddi cynllun gwasanaeth blynyddol yn ei le.

Pwysleisiodd yr Uwch Reolwr bod yr adain, yn ogystal â gorfodi, ac erlyn, hefyd yn cydweithio gyda busnesau yng Ngwynedd, a bod hyn yn fodd i hybu busnesau, cryfhau'r economi a gwarchod iechyd a diogelwch y cyhoedd.

(ch) Adroddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd bod y Cynllun Ymyrraeth yn nodi gwaith manwl yr adain am y flwyddyn a rhoddodd fraslun o gynnwys y Cynllun ar gyfer 2009/2010.

(d) Rhoddwyd cyfle i aelodau holi'r swyddogion a chyflwyno sylwadau. Nodwyd y prif faterion oedd ym maes gwaith y pwyllgor sef:-

(i) Mewn perthynas â deddfwriaeth ddi-fwg, cyfeiriodd aelod at broblemau niwsans i'r cyhoedd, yn sgil cwsmeriaid tafarndai yn mynd allan i'r stryd i ysmygu. Roedd o'r farn y dylai tafarndai ddarparu mannau addas yng nghefn yr eiddo ac awgrymodd y dylai'r is-bwyllgor trwyddedu gynnwys amod i'r perwyl. Eglurodd y Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd, bod y ddeddf yn nodi na chaniateir ysmygu mewn mannau cyhoeddus caeedig ac felly nid oedd yn berthnasol i bobl oedd yn ysmygu yn yr awyr agored. Roedd o'r farn nad oedd yn bosibl i'r Cyngor fynd ymhellach na hyn.

Pwysleisiodd y swyddog bod cydymffurfiaeth â'r ddeddf yn uchel yng Ngwynedd a bod cydweithrediad da o du'r cyhoedd a busnesau ar y cyfan, a bod camau positif wedi eu gwneud trwy'r Ddeddf i wella iechyd y cyhoedd.

Cyfeiriodd aelodau at enghreifftiau posibl o dorri'r Ddeddf , a gofynnwyd iddynt gysylltu gyda'r swyddogion gorfodaeth, er mwyn i'r swyddogion ymchwilio i'r mater, a chymryd camau priodol.

(ii) Mynegodd aelod bryder bod achosion niferus o gontractwyr yn syrthio o ben siediau amaethyddol a bod angen rhoddi sylw penodol i'r mater er mwyn gostwng nifer y damweiniau

Adroddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd bod syrthio o uchder yn un o'r damweiniau angheuol mwyaf mynych ym Mhrydain, a bod y Gweithgor Iechyd a Diogelwch a'r Cyngor yn rhoddi lawer o sylw i'r maes. Roedd yn

cytuno bod angen targedu'r garfan ymhellach ac addysgu'r rhai sy'n ymwneud â'r maes er mwyn gostwng nifer y damweiniau. Addawodd y byddai'n tynnu sylw'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch i sylwadau'r pwyllgor.

(iii) Mewn ymateb i sylw bod y ddeddfwriaeth ym maes Iechyd a Diogelwch yn ormodol, eglurodd yr Uwch Reolwr bod cynllun gwasanaeth yr adain yn gytbwys a synhwyrol. Pwysleisiodd bod yr adain yn ceisio targedu'r prif risgiau yn hytrach na materion ymylol.

(iv) Mewn perthynas â chymal "Gwasanethau I'w rhoi gan y Tim Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch" yn y Cynllun, mynegodd aelod gonsyrn a phryder am nad oedd yn fwriad gan yr adain i ymchwilio i bob digwyddiad peryglus. Roedd o'r farn bod digwyddiad peryglus yn gallu esgor ar broblemau pellach, hefyd roedd gwersi i'w dysgu o ymchwilio i'r sefyllfa Gofynnodd am newid y drefn fel bod y gwasanaeth yn ymchwilio'n llawn i bob digwyddiad peryglus

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Cynllun Ymyrraeth y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch ar gyfer 2009/10, yn amodol ar ddiwygio'r Cynllun i nodi bydd y Tîm Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch yn ymchwilio i bob digwyddiad peryglus (cymal 6.2(a) - tudalen 19)**

**5 CYNLLUN CYFLWYNO GWASANAETH DIOGELWCH BWYD 2009/10**

(a) Cyflwynwyd, er cymeradwyaeth y pwyllgor Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2009/10.

(b) Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd bod adain o fewn Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd a hyrwyddo diogelwch bwyd o fewn busnesau bwyd sydd wedi'u lleoli yng Ngwynedd.

Eglurwyd bod Asiantaeth Safonau Bwyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun cyflwyno gwasanaeth diogelwch bwyd er mwyn cydymffurfio â chytundeb fframwaith.

Pwysleisiwyd bod gan y Cyngor nifer helaeth o fusnesau bwyd yng Ngwynedd a bod cydweithio ardderchog rhwng y Cyngor a'r busnesau.

(c) Adroddodd y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd bod y Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Diogelwch Bwyd yn nodi gwaith manwl yr adain am y flwyddyn a rhoddodd fraslun o gynnwys y Cynllun ar gyfer 2009/2010.

Rhoddwyd cyfle i aelodau holi'r swyddogion a chyflwyno sylwadau

Mewn perthynas ag Adolygu a Monitro - Meysydd i'w Gwella, a'r sylw gan aelod nad oedd "ceisio gwella lefel ymyriadau hylendid fwyd eiddo risg uchel i 100%" yn ddigonol, gan ei fod yn fater pwysig iawn, Eglurodd y Rheolwr bod gan y Cyngor tu 1000 eiddo yn y categori yma, a'i bod yn anodd iawn cyrraedd 100%. Nododd iddynt fethu cyrraedd tua 20 busnes y

llynedd oherwydd eu bod yn fusnesau tymhorol ac eglurodd ei fwriad newid eu trefniadau eleni er mwyn cyflawni'r gwaith a chyrraedd

Diolchwyd i'r aelodau am y sylwadau ac fe'u hanogwyd i gysylltu gyda Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd os oedd mater yn destun pryder iddynt.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth Diogelwch Bwyd ar gyfer 2009/10 a diolch i swyddogion yr adain am eu gwaith a'u hymroddiad i gynnal y safon gydag adnoddau cyfyng.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30a.m. a daeth i ben am 11.50 a.m.